# Y Diwygiwr ROBERT OWEN, Y Drenewydd (1771–1858) a rhai deunydd yn y Gymraeg sydd wedi ei gofnodi amdano

gan DDAFYDD GUTO IFAN

Ran ystyron y mae *diwygio*, a *diwygiwr* yn dal perthynas agos ag *adnewyddu, cywiro, gwella sefyllfa, neu amgylchiadau.* Y maent yn eiriau nad oes iddynt fri o gwbl yn yr oes gorfaterol sydd ohoni, a'r byd newyddion-lloerennol y gwyddom amdano. I'r categori *diwygiedig* a *diwygiol* hwn y perthyn Robert Owen, y Drenewydd, Canolbarth Cymru, diwygiwr cymdeithasol, un a aned yno Mai 14eg. 1771 ac a fu farw'n 87 mlwydd oed, a'i gladdu un diwrnod niwlog, yn hen fynwent eglwys y dref ble y'i ganed, a hynny ar Dachwedd I7eg, 1858

Fe'i ganed a'i gladdu yng Nghymru, ond byr fu ei arhosiad yn yr henwlad. Oddi allan i Gymru y cyflawnodd ei waith mwyaf. Cymry, fodd bynnag, oedd ei rieni. Cyfrwywr, gwerthwr nwyddau haearn, a phost feistr ydoedd ei dad. Roedd Robert Owen yr ie'ngaf, y cyw melyn olaf fel petae, yn un o'r saith plentyn a faged ar aelwyd Robert ac Ann Owen. Addysg elfennnol a gafodd Robert bach ac, yn ddeng mlwydd oed, aeth dros Glawdd Offa i weithio fel prentis i ddilledydd. Gan fod gan ei gyflogwr lyfrgell penigamp ymddiddorodd y cyw-prentis yn y llyfrau a geid yno. Yn ei amser hamdden bwriodd ati i ddarllen yn ddibendraw. Yn ddios roedd yn fachgen a feddyliai'n ddofn. Gwybu hefyd fod rhaid wrth ymdrech i wella ei hunan. Cyflawnodd hynny drwy ymroddiad ac aberth. Hunan-ddysgedig ydoedd i raddau ac yn un a fanteisiodd ar ddysg llyfr. Byddai hyn yn aros fel carreg sylfaen iddo drwy gydol ei oes.

Ym Maenceinion, Lloegr ac yntau'n 19 mlwydd oed ar y pryd, daeth yn arolygwr ffatri gotwm. Cyn bo hir etholwyd yn Rheolwr y ffatri. David Dale oedd y perchennog. Caroline oedd ei ferch. Priododd â Robert Owen. Bu iddynt dri mab a ddaeth i amlygrwydd yn Unol Daleithiau'r America:

(1) Robert Dale Owen (1801-1871), a gynrychiolodd ei wlad fabwysedig fel llysgennad yn Naples.

(2) David Dale Owen (1807-1886), a gyhoeddod erthyglau o bwys ar ddaeareg rhai rhanbarthau yn Unol Daleithiau'r America.

(3) Richard Dale Owen, a ddaeth yn Ddarlithydd ym Mhrifysgol Nashville.

Mab arall iddynt oedd Wiliam a aned ym 1802, a'u merched oedd Anne Caroline, Jane Dale, a Mary.

Ond er i rai o'r meibion ymfudo i'r Amerig, yn Lanarc Newydd, yn swydd Lanarc, yr Alban, y cyflawnodd Robert Owen, eu tad, waith clodwiw. Ebe Robert Owen, sef Gwilym Cadwgan (yn) *Seren Gomer*, 1951.

*Dechreuodd Owen ar ei waith fel llywodraethwr New Lanark yn 1800 ar gyflog o fil o bunnoedd y flwyddyn. Buddsoddodd ei arian yn y busnes, nid fel ei bartneriaid er mwyn medi elw bras, ond er cael cyfle i roddi mynegiant ymarferol i'r cynlluniau cymdeithasol a ysai ei enaid dyngarol... Yma rhoddodd brawf ar ei athrawiaeth ynglŷn ag amgylchfyd a seiliwyd ar ei gred ddiysgog bod dyn yn gynnyrch llwyr y bywyd o'i gwmpas. Gwnaed tyrfa o weithwyr meddw ac ymladdgar yn gymdeithas heddychlon, a daeth brenhiniaeth New Lanark nid yn ffatri ddelfrydol yn unig, ond yn ddelfryd o beth a ddylai cymdeithas weithfaol fod – yn Arcadi o Ddiwydiant.*



*Robert Owen (gan Matilda Heming: a gyhoeddwyd yn 1823).*

*Ei amcan cyntaf, felly, oedd creu amgylchfyd addas i ddatblygu nodweddion gorau ei weithwyr a'u hennill i fabwysiadu arferion allanol gwell.*

Gyda hyn mewn golwg ail-drefnwyd y ffatri, a chafwyd gwared ar feddwdod, anfoesoldeb a lladrata. Er mwyn gwella amodau byw aed ati i adeiladu gwell tai ac fe roddwyd addysg i'r plant yn hytrach na'u gorfodi i weithio dair awr ar ddeg y dydd. Penodwyd arolygwyr iechyd. Glanhawyd y strydoedd. Cesglid yr ysbwriel yn gyson. Caewyd y siopau preifat a werthai wirodydd, a rhoddwyd caniatâd i werthu diod o dan arolygiad manwl. Yn anad dim byd arall, agorwyd ystorfeydd o dan berchenogaeth y cwmni ble medrai'r holl weithwyr brynu eu holl nwyddau am bris di-elw. Caent nwyddau o'r ansawdd orau am bris chwarter yn rhatach na mewn siopau eraill. Yn hyn o beth, daeth y gyfundrefn Gyd-Weithredol i fodolaeth, a'r Cymro Robert Owen a'i creodd.

Y mae Gwilym Cadwgan (1951) yn crybwyll pa mor gryf ran o ei egwyddorion ydoedd Robert Owen. Hyn yn anad dim byd arall a droes ei weledigaethau yn realiti byw.

*Anghymeradwyai Owen bob math o wobrwyo a chosbi a chadwyd disgyblaeth hyd yn bosibl, trwy esiampl a pherswad. Ni ddefnyddiwyd dirwyon ond yn anaml iawn... Mewn ychydig flynyddoedd llwyddodd i wneud ei ysgolion yn sefydliad addysgol enwocaf yr hollfyd a denwyd tuag at ugain mil o ymwelwyr i lannau'r Clude yn cynnwys enwogion fel y Duc Nicholas, Ymerawdwr Rwsia wedi hynny, yr Archddugiaid John a Maximilian o Awstria...*

*Dywedir bod Nicholas wedi dweud wrth Robert Owen 'Canlynwch fi a dwy filiwn o ddynion i Rwsia. Rhoddaf i chwi bopeth y bydd eisiau arnoch i sefydlu cymdeithas cydweithredol o'r math hwn yn fy ngwlad fy hun...'*

Digwyddodd hyn cyn y Chwyldro yn y flwyddyn 1917. Mor eironig ddigon. Petae Robert Owen wedi derbyn gwahoddiad Niclas, yna mae'n bosib y byddai hanes Rwsia'n ddiweddarach wedi bod yn gwbl wahanol i'r hyn a ddigwyddodd iddi fel gwlad. Yn drist iawn, o'r flwyddyn 1825 *pasiodd rheolaeth New Lanark allan yn gyfangwbl* o ddwylo Robert Owen, ond *arhosodd yn bartner mewn enw hyd 1828 pan werthodd ei gyfrannau. Felly terfynodd anturiaeth fwyaf llwyddiannus ei fywyd hir. O hyn ymlaen, dilynwyd ef a'i gynlluniau gan fethiant truenus.*

Priodol inni bellach, gan gofio ein bod fel gwlad a chenedl, wedi gweld y flwyddyn 2001 yn diweddu, heb unrhyw fath o gyhoeddiad newydd sbon danlli yn y Gymraeg, a fyddai'n dathlu tri chan mlwyddiant geni Robert Owen, y Drenewydd, ydyw archwilio, a cheisio asesu rhai o'r cyhoeddiadau yn yr heniaith sydd ar gael yna yng Nghymru.

**Bywgraffyddol**

Ymddengys mai'r bywgraffiad cynnar yn y Gymraeg, sy'n cynnwys ond dwy dudalen, ydyw'r hyn a groniclir gan Llyfrbryf, sef Isaac Foulkes (yn) *Geirlyfr bywgraffyddol o enwogion Cymru*, (1870). Nid yw'n fywgraffiad cyflawn, ond yn hytrach grynodeb o'r prif bethau a berthyn i fywyd Robert Owen, y Drenewydd. Ni chynhwysir hyd yn oed lun ohono.

Gan Ionawryn Williams yn ei lyfr *Geirlyfr bywgraffyddol yn cynnwys byr-hanes y Cymry mwyaf adnabyddus fuont yn preswylio yn Manceinion.* Salford: J. Roberts a'i feibion, 1896 ceir sylwadau craff ynghylch athroniaeth Robert Owen: *Barn Robert Owen ydoed fod cymdeithas, a'r byd hefyd, eisieu eu newid, gan eu bod mewn sefyllfa erchyll, a chyflwr truenus, yn ei dyb ef – yn gymdeithasol a chrefyddol.* Dywedir ymhellach am Robert Owen: *Cafodd... barch*



*Ionawryn Williams.*